**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**174 - Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2020**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 8 Hydref 2020*

| **Sifftio** | |
|---|---|
| Yn destun sifftio yn Senedd y DU? | Nac ydw |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amh |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amh |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amh |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 77 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Nid yw’n ofynnol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amh |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | 21 Hydref 2020 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 20 Hydref 2020 |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) ac 8(c) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

**Crynodeb**

Mae'r offeryn hwn yn gwneud y cywiriadau angenrheidiol i sicrhau bod Rheoliad (UE) 2019/1021 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Lygryddion Organig Parhaus (“POPs”) yn gweithredu ym Mhrydain Fawr ar ôl diwedd y Cyfnod Gweithredu. Mae'r offeryn hwn hefyd yn gwneud diwygiadau at ddibenion sy'n ymwneud â gweithredu Protocol Iwerddon / Gogledd Iwerddon (“y Protocol”).

Yn dilyn diwedd y Cyfnod Gweithredu, bydd y diwygiadau i Reoliad (EU) 2019/1021 yn galluogi awdurdodau Prydain Fawr i weithredu Confensiwn

Stockholm yn annibynnol drwy reoleiddio'r broses o gynhyrchu POPs, eu rhoi ar y farchnad, a'u defnyddio. Bydd y diwygiadau hefyd yn caniatáu i awdurdodau Prydain Fawr reoleiddio pentyrrau o POPs a rheoli gwastraff lle mae POPs yn bresennol. Maent hefyd yn nodi gofynion monitro ac adrodd. At hynny, bydd y diwygiadau yn creu pŵer a fydd yn galluogi Prydain Fawr i roi'r mesurau angenrheidiol ar waith i sicrhau y bydd modd rheoli ac olrhain gwastraff sydd wedi'i halogi gan y llygryddion perthnasol.

Daeth Confensiwn Stockholm i rym yn 2004 a'i nod yw dileu neu gyfyngu ar y gallu i gynhyrchu a defnyddio'r POPs hyn. Mae'n rheoleiddio'r broses o gynhyrchu POPs sy'n cael eu gwahardd neu eu cyfyngu o dan Gonfensiwn Stockholm, y gallu i'w rhoi ar y farchnad a'u defnyddio. Mae esemptiau a therfynau ar gyfer faint o sylwedd a ganiateir mewn eitemau newydd. Mae hefyd yn nodi gofynion i gymryd camau priodol i ddinistrio gwastraff POPs ac mae gofynion i fonitro'r broses o ddileu sylweddau a restrir, stoc-bentyrru a rheoli gwastraff, a gofynion i baratoi adroddiadau cysylltiedig. Mae'r DU yn rhan o Gonfensiwn Stockholm yn ei rhinwedd ei hun a bydd ei rhwymedigaethau rhyngwladol o dan y Confensiwn yn parhau ar ôl ymadael â'r UE.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 13 Hydref 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn, ond cynigiwyd y sylwadau a ganlyn:

1. Mae Erthygl 7 o Reoliad (EU) 2019/1021, fel y'i diwygiwyd gan reoliad 14 o'r Rheoliadau hyn ac sy'n rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir, yn rhoi (ym mharagraff 7 newydd o Erthygl 7) pŵer i Weinidogion Cymru neu, gyda'u cydsyniad, i'r Ysgrifennydd Gwladol, wneud rheoliadau i sicrhau y bydd modd rheoli ac olrhain gwastraff sydd wedi'i halogi gan y llygryddion a restrir yn Atodiad 4 o Reoliad (EU) 2019/1021. Mae pŵer tebyg yn arferadwy ar hyn o bryd drwy gyfrwng adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd 1972, na fydd mewn grym yn dilyn diwedd y Cyfnod Gweithredu.

2. Mae'r diwygiadau i Erthygl 7 yn sicrhau y bydd y pŵer hwn yn gweithredu'n effeithiol yn dilyn diwedd y Cyfnod Gweithredu. Fodd bynnag, nodir bod paragraff 14 newydd o Erthygl 7 o Reoliad (EU) 2019/1021 yn darparu na chaiff unrhyw reoliadau eu gwneud o dan baragraff 7 ar neu ar ôl 31 Hydref 2023 (gweler rheoliad 14(4) o'r Rheoliadau hyn).

3. O ran arddull, mae datganiad Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at 'Reoliadau 2019" a "Rheoliadau 2020". Mae'n debyg mai camgymeriad yw hwn, gan fod y ddau derm, mae'n ymddangos, yn cyfeirio at y Rheoliadau hyn.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.